

Y PWYLLGOR ADOLYGU GWEITHREDOL

7 Mawrth 2018

Yn bresennol: Y Cynghorydd K Doolin (Cadeirydd)
Y Cynghorydd P Harries, Mrs J James, Dr RM Plummer, y
Cynghorydd PJ Morgan, Mr AE Sangster, y Cynghorydd A
Wilcox a'r Cynghorydd S Yelland.

*[Cyrrhaeddodd y Cynghorydd ML Evans yn ystod y cyflwyniad ar
Reoli Llwybr Cenedlaethol Arfordir Penfro (gweler Cofnod 5)]*

(Swyddfa APC, Parc Llanion, Doc Penfro: 10.00am – 12.25pm)

1. Croeso

Estynnodd y Cadeirydd groeso i'r Dr RM Plummer i'w chyfarfod cyntaf o'r Pwyllgor.

2. Ymddiheuriadau

Nid oedd unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

3. Datgelu buddiant

Ni ddatgelwyd unrhyw fuddiant.

4. Cofnodion

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 6 Rhagfyr 2017 i'w cadarnhau a'u llofnodi.

PENDERFYNWYD cadarnhau a llofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 6 Rhagfyr 2017.

5. Rheoli Llwybr Cenedlaethol Parc Arfordir Penfro

Roedd adroddiad y Rheolwr Mynediad a Hawliau Tramwy yn sôn am gefndir y Llwybr yn ogystal â'r dulliau o'i reoli a'r heriau y mae'n eu hwynebu. Dangoswyd hyn gyda chynorth cyflwyniad PowerPoint.

Atebodd y swyddogion gwestiynau'r Aelodau ynghylch materion a oedd yn ymwneud â chyllid a'r posibilrwydd o gael nawdd ar gyfer cyfarpar a dodrefn ar y llwybr. Bu trafodaeth am y trefoli a allai ddigwydd; cysylltedd a bioamrywiaeth; cynigion Llywodraeth Cymru i gyflwyno seiclo a marchogaeth ceffylau ar Hawliau Tramwy, gyda'r Aelodau yn mynegi barn am ei fanteision i iechyd yn ogystal â phryderon am ddiogelwch, yn enwedig ar lethrau serth yr arfordir; a hawliau atebolrwydd cyhoeddus, a oedd, yn ôl y swyddogion, yn cael eu hamddiffyn yn dda gan gyfundrefn arolygu'r Awdurdod.

NODWYD.



6. **Mentrau Iechyd a Lles**

Atgoffwyd yr Aelodau gan y Swyddog Polisi Iechyd, Lles, Hamdden a Thwristiaeth fod Datganiad Sefyllfa Parciau Cenedlaethol Cymru: Law yn Law er budd Iechyd a Lles wedi cael ei gyhoeddi gyntaf yn 2016. Yn ddiweddar, roedd wedi cael ei ddiweddarau ac adroddiad wedi'i lunio ar y Gweithredoedd Blaenoriaeth a oedd ynddo. Dosbarthwyd copi drafft o'r ddogfen ddiwygiedig er gwybodaeth i'r Aelodau.

Aeth y swyddog ymlaen i roi cyflwyniad yn dangos sut yr oedd gwaith yr Awdurdod yn cyfrannu at anghenion lleol, a datblygu polisi ac arfer, gan ganolbwyntio'n benodol ar ei waith partneriaeth yn cydgysylltu Rhwydwaith Gwasanaeth Iechyd Naturiol Gorllewin Cymru a Menter Dewch i Gerdded Sir Benfro.

NODWYD.

7. **Adroddiad am Berfformiad am y Cyfnod a Ddaeth i Ben ar 31 Ionawr 2017/18**

Soniwyd fod yr adroddiad am berfformiad yn dilyn strwythur Cynllun Corfforaethol ac Adnoddau'r Awdurdod ar gyfer 2017/18 a oedd yn adlewyrchu'r saith nod llesiant yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, gydag adran ychwanegol yn rhoi gwybodaeth gyffredinol am lywodraethu.

Roedd yr adroddiad yn cyfeirio at berfformiad hyd at 31 Ionawr 2018 ac yn cynnwys ystadegau'r trydydd chwarter (Hydref – Rhagfyr) ar gyfer rhai setiau data. Roedd yn amlygu'r meysydd hynny lle nad oedd y targedau wedi'u cyrraedd ac yn rhoi esboniad am hynny.

Roedd yr adroddiad yn cyfeirio at wneud nifer o systemau'r Awdurdod yn fwy digidol, a gofynnodd yr Aelodau a fyddai hynny yn achosi mwy o bwysau yn y tîm TG o ran staff cymorth a gallu'r peiriannau i ymdopi. Esboniodd y swyddogion fod nifer o'r systemau hyn yn seiliedig ar y we ac felly'n cael eu cynnal yn allanol, a bod hynny'n arwain at lai o bwysau na phe baent yn cael eu datblygu'n fewnol. Fodd bynnag, byddai'r systemau yn arbed arian yn y tymor hir gan y gellid defnyddio dyfeisiau yng nghledr y llaw i gael gwybodaeth yn hytrach na bod y staff yn gorfod teithio i swyddfa i agor cyfrifiadur.

Hefyd, cyfeiriodd yr Aelodau at y cynnydd yn y gwerthiant yn y Canolfannau, a'r pwysigrwydd o ganfod pam yr oedd hyn yn digwydd. Atebodd y swyddogion bod nifer o bosibiliadau, gan gynnwys y strategaeth fanwerthu a ddatblygwyd ar draws yr Awdurdod gan y Rheolwr Gwasanaethau Ymwelwyr (De). Holodd un Aelod a oedd yn briodol i'r Awdurdod fod yn cynhyrchu refeniw at unrhyw ddiben heblaw diben ategol, ond roedd eraill yn anghytuno, a chytunodd y Prif



Weithredwr bod angen cydbwysedd a'i fod yn teimlo bod yr Awdurdod yn llwyddo yn hynny o beth.

Penderfynwyd **DERBYN** yr Adroddiad am Berfformiad.

8. Y Gofrestr Risg

Dyweddodd y Prif Weithredwr fod y gofrestr risg wedi cael ei hadolygu'n ddiweddar gan Dimau Rheoli ac Arweinyddiaeth yr Awdurdod, a fu'n nodi cynnydd a newidiadau. Roedd y newidiadau mawr o ran risg wedi'u hamlygu yn yr adroddiad ac roedd y gofrestr lawn yn atodedig i'r Aelodau ei hystyried.

Holodd yr Aelodau am nifer o risgiau penodol, gan gynnwys y goblygiadau am gynnal a chadw Castell a Sarn Caeriw (risg 31); yr oedi o ran y system rheoli dogfennau (risg 28); a'r methiant i fodloni'r gofynion amrywiaeth o ran Aelodaeth yr Awdurdod (risg 7). Atebodd y swyddogion eu cwestiynau. Holodd yr Aelodau hefyd a oedd y risgiau yn cael eu neilltuo i swyddogion penodol, ac atebodd y Prif Weithredwr eu bod, ond nad oedd yr wybodaeth honno yn cael ei dangos ar y tabl.

NODWYD.

9. Ceisiadau i ffilmio yn y Parc Cenedlaethol

Rhoddodd y Swyddog Cyfathrebu a'r Swyddog Ystadau gyflwyniad yn amlinellu dull yr Awdurdod o weithredu pe byddai cais yn dod i law i ffilmio yn y Parc Cenedlaethol. Tynnwyd sylw at rai o'r cynyrchiadau a ffilmiwyd yn ddiweddar ar dir a oedd dan reolaeth yr Awdurdod. Nodwyd mai'r broblem fwyaf oedd mai dim ond rhan fach o dir oedd yn eiddo i'r Awdurdod ac na ellid darparu cymorth bob tro. Hefyd, roedd arian yn dod i law dim ond os oedd y cwmnïau'n ffilmio ar dir yr Awdurdod ac yn aml roeddynt yn cysylltu â mwy nag un perchennog. Gofynnodd un o'r Aelodau a fyddai'n werth bod yn fwy rhagweithiol o ran hyrwyddo'r Parc Cenedlaethol fel lle ar gyfer ffilmio, a dywedodd y swyddogion fod hyn eisoes yn digwydd drwy Sgrin Cymru a oedd yn marchnata safleoedd ledled Cymru gyfan. Roedd yr Awdurdod hefyd yn hyrwyddo drwy gyfrwng ei wefan.

NODWYD.

10. Y Grŵp Gwelliant Parhaus: dirprwyo materion

PENDERFYNWYD nad oedd unrhyw faterion yr oedd y Pwyllgor am eu dirprwyo i'r Grŵp Gwelliant Parhaus i'w hystyried.

